# Papur y Bwrdd

7 Gorffennaf 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Adroddiad Cyllid Diwedd y Flwyddyn** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **NRW B B 40.16** |
| **Paratowyd y papur gan:** | Andrea Morgan, Rheolwr Cyllid Busnes<br>Rob Bell, Pennaeth Cyllid |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | **Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol** |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Craffu a phenderfyniad** |
| **Argymhelliad:** | Dylid craffu ar:<br>• y perfformiad ariannol ar gyfer 2015-16;<br>Dylid nodi:<br>• y cynnydd a wnaed o ran llunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16;<br>Dylid cytuno ar:<br>• y diwygiad i Gyllideb Agoriadol eleni, drwy greu Cyllideb Ddiwygiedig ar gyfer y chwarter cyntaf. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | **Ystyried yr <u>hirdymor</u>:**<br>Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn ariannol flaenorol a'r flwyddyn ariannol gyfredol, ac mae rheolaeth ariannol gadarn yn elfen bwysig wrth gynllunio ar gyfer yr hirdymor.<br><br>**Gweithredu mewn modd <u>integredig</u>:** |

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

| | |
|---|---|
| | **Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth:**<br><br>**Gweithio mewn modd cydweithredol:**<br><br>**Atal problemau rhag digwydd:**<br>Mae'r papur hwn yn tynnu sylw at y camau sy'n cael eu cymryd i leihau gostyngiadau i'n cyllid yn y dyfodol. |

## Mater

1. Cawsom set dda o ganlyniadau o ran ein perfformiad ariannol yn 2015-16 - gan ragori ar ein targedau incwm a chadw o fewn y gyllideb ar gyfer gwariant, yn rhannol drwy fentrau llwyddiannus megis ein hymgyrch effeithlonrwydd, Llwyddo gyda Llai. Mae hynny wedi ein galluogi i ddwyn cyllid ymlaen i 2016-17 er mwyn helpu i ariannu gwaith â blaenoriaeth uchel.

2. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Mehefin i ystyried yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Drafft. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlen a bydd y Pwyllgor yn ailymgynnull ar 12 Gorffennaf i ystyried fersiwn derfynol yr adroddiad a'r cyfrifon ar ôl i Swyddfa Archwilio Cymru gwblhau'r archwiliad.

3. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu ei gyllideb yn chwarterol. Mae'r papur hwn yn gofyn i'r Bwrdd gytuno'n ffurfiol y Gyllideb Ddiwygiedig ar gyfer y chwarter cyntaf sy'n ymdrin â newidiadau sy'n codi o gadarnhau'r sefyllfa o safbwynt dwyn cyllid ymlaen o 2015-16 a newidiadau i'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.

## Cefndir

4. Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 12 Mai bu i ni egluro'r sefyllfa ariannol ddangosol ar gyfer 2015-16 tra'r oeddem yn dal i ***gadarnhau'r*** sefyllfa ar gyfer diwedd y flwyddyn. Bu i ni nodi incwm o £205.4 miliwn a gwariant o £182 miliwn. Gallwn adrodd mai'r sefyllfa ddiwygiedig o ran incwm yw £205.3 miliwn a'r sefyllfa ddiwygiedig o ran gwariant yw £182.1 miliwn.

## Asesiad

### Diweddariad ynghylch perfformiad ariannol ar gyfer 2015-16

5. Roedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn (2015-16) fel a ganlyn:

   - Cawsom Gymorth Grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo â'r pwysau ar y gyllideb yn 2016-17 (£12.3 miliwn).

- Roedd lefel yr incwm (heb gynnwys Cymorth Grant) oddeutu £2.1 filiwn yn fwy na’r hyn a ragwelwyd ym mis Chwefror. Mae’r sefyllfa hon yn ardderchog ac mae wedi codi yn bennaf oherwydd bod incwm o bren yn uwch na’r targed. Yn ogystal, roedd incwm o daliadau yn uwch na’r disgwyl ac mae’r arian hwnnw’n cael ei ‘neilltuo’ ar gyfer cynlluniau codi tâl penodol.

- Bu i ni dalu £1.5 miliwn i’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ym mis Mawrth, a oedd yn clirio rhan o’r diffyg o ran pensiwn y byddem wedi gorfod ei dalu yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17.

- Yn gwrthbwyso hynny, roedd gostyngiad o £1.2 miliwn yn y sefyllfa ddisgwyliedig o ran gwariant refeniw, oherwydd bod gwariant wedi’i reoli mewn modd cadarnhaol.

- Roeddem yn rhagweld gwariant o rhwng £16 miliwn a £17 miliwn ar y Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd. Y gwariant gwirioneddol oedd £16.7 miliwn.

- Felly, mae mwy o gyllid ar gael yn 2016-17 a gaiff ei ddwyn ymlaen o ganlyniad i’r perfformiad cyllidebol yn 2015-16, yn bennaf oherwydd ein sefyllfa o ran incwm ar ddiwedd y flwyddyn.

- Bu i ni hefyd sicrhau set ardderchog o ganlyniadau cydymffurfio (perfformiad o ran talu cyflenwyr ac adennill dyledion) ym mis Mawrth sy’n dangos cystal y mae staff wedi addasu i’r system newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a faint o welliannau yr ydym wedi’u gwneud i’r modd y mae’r system yn gweithio yn ymarferol.

Mae’r sefyllfa ariannol gyffredinol yn cael ei chrynhoi yn y tabl isod:

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

| Year end Position 2015-16 | Year end Performance Income £m | Expenditure £m | Balance £m |
|---|---|---|---|
| **Forecast position at February 2016** | **190.9** | **181.8** | **9.1** |
| Additional Grant in Aid from Welsh Government | 12.3 | | 12.3 |
| Additional Income | 2.1 | | 2.1 |
| Directorate Expenditure Performance | | -1.2 | 1.2 |
| Pension Scheme Payment | | 1.5 | -1.5 |
| **Year end position** | **205.3** | **182.1** | **23.2** |

Text in picture
Year end position 2015-16 – Sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn 2015-16
Year end performance – Perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn
Income – Incwm
Expenditure – Gwariant
Balance – Gweddill
£m – £ miliwn
Forecast position at February 2016 – Y sefyllfa a ragwelwyd ym mis Chwefror 2016
Additional Grant... – Cymorth Grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru
Additional Income – Incwm ychwanegol
Directorate... – Perfformiad cyfarwyddiaethau o ran gwariant
Pension... – Taliad i'r Cynllun Pensiwn
Year end position – Y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn

Mae Atodiad A yn cynnwys crynodeb o'r adroddiad ariannol ar gyfer 2015-16.

## Llunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16

6. Rydym yn symud yn ein blaen yn unol â'r cynllun ar gyfer llunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae Swyddfa Archwilio Cymru yn dal i archwilio ein Hadroddiad a'n Cyfrifon. Cafodd yr Adroddiadau a'r Cyfrifon drafft eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 10 Mehefin, yn dilyn sesiwn fanylach yn ystyried y Cyfrifon gyda Nigel Reader a Karen Balmer. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cyfarfod eto ar 12 Gorffennaf pan fydd yn ystyried argymell i'r Swyddog Cyfrifyddu y gall lofnodi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

# Papur y Bwrdd

**Diweddariad ynghylch y gyllideb ar gyfer 2016-17**

7. Ers i'r Bwrdd gymeradwyo'r Gyllideb a'r Cynllun Busnes yn 2016-17, cafwyd nifer o newidiadau y mae angen eu hymgorffori yn y Gyllideb Ddiwygiedig ar gyfer eleni. Cyfarfu'r Tîm Gweithredol ym mis Mai i ystyried y newidiadau hynny, gan ymgorffori'r sefyllfa ddiwygiedig o ran dwyn cyllid ymlaen. Caiff y newidiadau eu hamlygu isod:

| **Quarter 1 Budget Changes 2016-17** | **Income £m** | **Expenditure £m** |
|---|---|---|
| **Opening Budget 2016-17** | **178.4** | **178.4** |
| **Changes to Carry Forward from 2015-16:** | | |
| Projects and Initiatives | 0.1 | 0.1 |
| Additional net Income | 0.5 | |
| **Changes in additional Grant in Aid from Welsh Government (from £14m to £12.3m)** | | |
| Non Flood Capital | -2.0 | |
| Flood Revenue | 0.3 | |
| **Pension payment included in 2016-17 Budget - paid in 2015-16** | | -1.5 |
| **Other specific funding changes:** | | |
| Additional GiA - Invest to Save: Voluntary Exit Scheme (I2S: VES) | 3.8 | 3.8 |
| Additional GiA - Rights of Way Infrastructure Improvements (ROWIP) | 1.0 | 1.0 |
| Additional GiA - Flight Tipping Action Wales (FTAW) | 0.2 | 0.2 |
| Increase in Land sales | 0.1 | |
| Wind Energy -Option fees | 0.3 | 0.3 |
| **Expenditure prioritisation changes:** | | |
| Reduction in level of funding allocated to revenue projects | | -0.7 |
| Accommodation Strategy - South feasibility | | 0.1 |
| Extension of use of Environment Agency flood systems | | 0.4 |
| Reinstatement of Flood Operations Budget previously reduced | | 0.1 |
| Increase in contingency provision for in-year pressures | | 0.5 |
| **Quarter 1 Revised Budget 2016-17** | **182.7** | **182.7** |

Text in Picture
Income – **Incwm**
Expenditure – **Gwariant**
£m - **£ miliwn**
Quarter 1... – **Newidiadau i'r Gyllideb ar gyfer 2016-17: Chwarter 1**
**Cyllideb agoriadol 2016-17**

**Newidiadau i'r sefyllfa o ran dwyn cyllid ymlaen o 2015-16:**
Prosiectau a mentrau
Incwm net ychwanegol

**Newidiadau o ran Cymorth Grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (o £14 miliwn i £12.3 miliwn)**
Cyllid cyfalaf nad yw'n ymwneud â llifogydd
Cyllid refeniw sy'n ymwneud â llifogydd

**Taliad pensiwn a gafodd ei gynnwys yng nghyllideb 2016-17 – a dalwyd yn 2015-16**

**Newidiadau penodol eraill o ran cyllid:**
Cymorth Grant ychwanegol – Buddsoddi i Arbed: Cynllun Ymadael Gwirfoddol
Cymorth Grant ychwanegol – Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy
Cymorth Grant ychwanegol – Taclo Tipio Cymru
Cynnydd mewn gwerthiant tir
Ynni gwynt – Ffioedd opsiynau

**Newidiadau i flaenoriaethau o ran gwariant:**
Lleihad yn lefel y cyllid a ddyrennir i brosiectau refeniw
Strategaeth adeiladau – dichonoldeb y de
Estyniad i'r defnydd o systemau llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd
Adfer y gyllideb ar gyfer gweithrediadau llifogydd a gafodd ei lleihau'n flaenorol
Cynnydd yn y ddarpariaeth wrth gefn ar gyfer pwysau yn ystod y flwyddyn

**Cyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2016-17: Chwarter 1**

8. Ddiwedd mis Mai roedd ein hincwm £0.7 miliwn (1%) yn uwch na'r gyllideb ar gyfer yr adeg honno (sef £54 miliwn). Roedd ein gwariant £1.4 miliwn (6%) yn is na'r gyllideb ar gyfer yr adeg honno (£24 miliwn). Mae'n gynnar yn y flwyddyn ariannol ac ni cheir unrhyw achos i boeni am y perfformiad ariannol hyd yn hyn.

## Argymhellion

9. Gofynnir i'r Bwrdd:

- Graffu ar y perfformiad ariannol ar gyfer 2015-16;
- Nodi'r cynnydd a wnaed o ran llunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16;
- Gymeradwyo'r Adolygiad i'r Gyllideb Agoriadol ar gyfer eleni, drwy greu Cyllideb Ddiwygiedig ar gyfer y chwarter cyntaf.

## Prif risgiau

10. Mae'r gwaith o archwilio'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn mynd rhagddo'n dda, ond nid yw wedi'i gwblhau o hyd. Felly, nid ydym yn disgwyl gweld unrhyw newid mawr i'r sefyllfa a nodir yn yr adroddiad hwn.

11. Mae dal i fod pwysau ar sawl rhan o’r gyllideb sy’n cael eu rheoli yn y flwyddyn ariannol hon, ac rydym wedi dechrau creu cronfa wrth gefn i ymdopi â’r pwysau hynny. Mae’r pwysau’n cynnwys cost trefniant posibl a drafodwyd i ryddhau Cyfoeth Naturiol Cymru o’i gyfrifoldeb am gostau gweddilliol y cyrff a oedd yn ei ragflaenu, effaith gwerthuso swyddi ac ôl-daliadau a’r buddsoddiad sy’n ofynnol i weithredu’r cynigion sy’n codi o’r Adolygiadau o Feysydd Busnes.

**Goblygiadau ariannol**

12. Yr unig oblygiad ariannol ar gyfer llunio’r adroddiad ynghylch perfformiad diwedd blwyddyn, y cyllidebau wedi’u diweddaru, yr Adroddiad Blynyddol a’r Cyfrifon, y gyllideb a’r Cynllun Busnes, ar wahân i amser y staff, yw’r ffi archwilio allanol.

**Asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb**

13. Nid oes angen asesiad.

**Mynegai i’r atodiadau**

Atodiad A – Adroddiad ynghylch Perfformiad Ariannol ar gyfer 2015-16.